OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 1048 (Cy. 234) (C. 30)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn Rhif 5) 2020

*Gwnaed - - - - 25 Medi 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 126(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn Rhif 5) 2020.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 29 Medi 2020**

**2.**—(1) Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym, i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau, ar 29 Medi 2020—

(a) adran 6 (y drosedd o fethu ag atal ysmygu mewn mangre ddi-fwg);

(b) adran 10 (tir ysgolion);

(c) adran 11 (tir ysbytai);

(d) adran 17 (arwyddion: mangreoedd di-fwg);

(e) adran 18 (awdurdodau gorfodi);

(f) adran 27 (hysbysiadau cosb benodedig) i'r graddau y mae'n ymwneud ag Atodlen 1;

(g) adran 28 (dehongli'r Bennod hon); ac

(h) Atodlen 1 (cosbau penodedig).

(2) Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 29 Medi 2020—

(a) adran 15 (cerbydau di-fwg); a

(b) adran 16 (mangreoedd di-fwg: esemptiadau).

(**1**) 2017 dccc 2.

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

25 Medi 2020

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, sydd wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru, yn dwyn i rym ddarpariaethau penodedig o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2(1) yn dwyn i rym y darpariaethau a ganlyn ym Mhennod 1 o Ran 3 o'r Ddeddf (ysmygu) ar 29 Medi 2020, i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben galluogi i reoliadau gael eu gwneud o dan y darpariaethau hynny—

dran 6 sy'n ymwneud â'r drosedd o fethu ag atal ysmygu mewn mangre ddi-fwg;

adran 10 sy'n ymwneud â thir ysgolion;

adran 11 sy'n ymwneud â thir ysbytai;

adran 17 sy'n ymwneud ag arwyddion: mangreoedd di-fwg;

adran 18 sy'n ymwneud ag awdurdodau gorfodi;

adran 27 sy'n ymwneud â hysbysiadau cosb benodedig;

adran 28 sy'n ymwneud â dehongli Pennod 1 o Ran 3 o'r Ddeddf; ac

Atodlen 1 sy'n ymwneud â chosbau penodedig.

Mae erthygl 2(2) yn dwyn i rym adran 15 (cerbydau di-fwg) ac adran 16 (mangreoedd di-fwg: esemptiadau) o'r Ddeddf ar 29 Medi 2020.

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym drwy Orchmynion Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 2 | 4 Hydref 2017 | 2017/949<br>(Cy. 237)<br>(C. 85) |
| Adran 3 | 4 Hydref 2017 | 2017/949<br>(Cy. 237)<br>(C. 85) |
| Adran 94 | 1 Chwefror 2018 | 2018/1<br>(Cy. 1)[(1)] |

**(1)** Ni ddyrannwyd rhif i'r offeryn yn y gyfres o Offerynnau Cychwyn.

**(2)** Ni ddyrannwyd rhif i'r offeryn yn y gyfres o Offerynnau Cychwyn.

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Rhan 5 | 1 Chwefror 2018 | 2018/1<br>(Cy. 1) |
| Rhan 7 | 1 Ebrill 2019 | 2019/829<br>(Cy. 152)[(2)] |
| Rhan 8 | 31 Mai 2018 | 2018/605<br>(Cy. 116)<br>(C. 48) |
| Adran 119 | 4 Hydref 2017 | 2017/949<br>(Cy. 237)<br>(C. 85) |
| Atodlen 4 | 31 Mai 2018 | 2018/605<br>(Cy. 116)<br>(C. 48) |

**(1)** Ni ddyrannwyd rhif i'r offeryn yn y gyfres o Offerynnau Cychwyn.

**(2)** Ni ddyrannwyd rhif i'r offeryn yn y gyfres o Offerynnau Cychwyn.

*Gweler* hefyd adran 126(1) o'r Ddeddf ar gyfer y darpariaethau a ddaeth i rym ar 3 Gorffennaf 2017 (dyddiad y Cydsyniad Brenhinol).